



Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (SRG)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 14.12.20
Cyfarfod rhithiol

Yn bresennol:	Cynrychiolydd:
Mr Ffrancon Williams	Darparwyr Tai (Cadeirydd)
Mrs Jackie Allen	Trydydd Sector Wreccsam
Mr Andy Burgen	Cyngor Iechyd Cymuned
Ms Clare Budden	Darparwyr Tai (cysgodi)
Mr Gwilym Ellis Evans	Mantell Gwynedd
Y Cyng. Louise Emery	Cyngor Sir Conwy (rhan o'r cyfarfod)
Mrs Fiona Evans	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
Y Cyng. Christine Marston	Awdurdod Lleol Sir Ddinbych
Y Cyng. Hilary McGuill	Cyngor Sir y Fflint (rhan o'r cyfarfod)
Yr Athro Robert Moore	Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru
Y Cyng. Mike Parry	Un Llais Cymru (rhan o'r cyfarfod)
Mr Trystan Pritchard	Hosbisau Gogledd Cymru
Mrs Sian Purcell	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Medrwn Môn
Mr Stephen Williams	Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (rhan o'r cyfarfod)
Mrs Ann Woods	Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
Yn bresennol:	
Mr Mark Wilkinson	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad
Mrs Katie Sargent	Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Cyfathrebu
Mr John Darlington	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio Corfforaethol (rhan o'r cyfarfod)
Mr Andrew Kent	Pennaeth Dros Dro Gwella wedi'i Gynllunio PBC (rhan o'r cyfarfod)
Miss Teresa Owen	Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus (rhan o'r cyfarfod)
Mr Iain Wilkie	Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLD) (rhan o'r cyfarfod)
Dr Alberto Salmoiragi	Cyfarwyddwr Meddygol MHLD (rhan o'r cyfarfod)
Mrs Jill Timmins	Cyfarwyddwr Rhaglen Aiddatblygu Ablett (rhan o'r cyfarfod)
Mrs Clare Darlington	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol (rhan o'r cyfarfod)
Ms Diane Davies	Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol

Eitem Agenda	Cam gweithredu
<p>S20/40 Croeso ac Ymddiheuriadau</p> <p>S20/40.1 Gwnaeth y Cadeirydd groesawu Clare Budden i'w chyfarfod cyntaf o'r SRG fel cynrychiolydd cysgodi Cymdeithasau Tai. Deallwyd mai Clare Budden fyddai'r cynrychiolydd wedi'i enwebu yn dilyn ymadawriad Mr Ffrancon Williams ym mis Ebrill 2021 ar ôl ymgymryd â'r rôl am yr uchafswm cyfnod swydd.</p> <p>S20/40.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Joan Lowe, Dafydd Meurig, Llinos Medi Huws, Mary Wimbury a Liz Wedley WAST y gwnaeth Steve Williams ddirprwyo ar ei rhan.</p>	
<p>S20/41 Diweddariad cynllunio BIPBC</p> <p>S20/41.1 Gwnaeth Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad gynghori ar y camu i lawr yn ddiweddar o statws Mesurau Arbennig a chapasiti is o ran Gofal wedi'i Gynllunio oherwydd yr ymateb i bandemig Covid-19. Er bod gweithgarwch ar ryw 50-60% ar hyn o bryd, roedd hyn wedi arwain at restrau aros hirach. Roedd angen llawer o waith i liniaru niwed gan gynnwys ar gyfer y rheiny a oedd yn dioddef problemau economaidd ac iechyd meddwl oherwydd rheoliadau'r cyfnod clo. Dywedodd hefyd fod y Bwrdd wedi cael y newyddion arwyddocaol bod Llywodraeth Cymru (LIC) wedi cytuno ar setliad adnoddau o dair blynedd yn hytrach na blwyddyn a fyddai'n helpu'r Bwrdd iechyd i gynllunio'n well ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal, roedd £82m wedi'i darparu hefyd dros y tair blynedd nesaf ond heb fod ymhellach. Cyfeiriodd at y cyflwyniad a roddwyd i aelodau a oedd yn cynnwys blaenoriaethau strategol gan Lywodraeth Cymru, blaenoriaethau craidd PBC wedi'u hadnewyddu ar gyfer 2021/22, Canlyniadau sydd eu hangen ar gyfer 2021/24, Blaenoriaethau'r Gweinidogion ar gyfer 2021/22, Bwriadau Comisiynu ar gyfer 2021/22 mewn Gofal wedi'i Gynllunio, Gofal Diogel heb ei Drefnu, Iechyd Meddwl ac amgylchedd diogel a chadarn i'n pobl yn ogystal â llywodraethu cynllunio a'r amserlen.</p> <p>S20/41.2 Cydnabu cynrychiolydd yr Hosbisau ddad-ddwysáu PBC o fesurau arbennig a holodd p'un a fyddai'r arian ychwanegol yn cael ei ddefnyddio ar draws Gogledd Cymru. Dywedodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad y byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod modd darparu cynlluniau ariannol cytbwys a fyddai'n caniatáu i fwy o waith gael ei wneud ac i symud y drafodaeth ymlaen o'r diffyg at agenda mwy cadarnhaol i wella gwasanaethau gyda chynlluniau ariannol cadarn.</p> <p>S20/41.3 Holodd cynrychiolydd Cyngor Sir Conwy p'un a oedd mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd wedi'i gynnwys yn y blaenoriaethau strategol a chadarnhawyd hyn gan Gyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad. Cydnabuwyd bod mynd i'r afael â'r amrywiaeth o faterion yn y maes hwn hefyd yn cynnwys Awdurdodau Lleol a</p>	

phartneriaethau. Holodd cynrychiolydd Cyngor Sir Conwy hefyd pa gymorth a oedd yn cael ei roi i gleifion tra'r oeddent yn wynebu amseroedd aros estynedig am ofal wedi'i gynllunio yn ystod y pandemig. Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad enghreifftiau fel dewisiadau amgen nad ydynt yn llawfeddygol ac adnoddau fel Apiau i gynorthwyo cleifion, cyfeiriodd hefyd at gamau ataliol a allai helpu pobl i wneud dewisiadau iach.

S20/41.4 Soniodd cynrychiolydd cysgodi Cymdeithasau Tai fod ffocws PBC yn parhau i fod ar faterion iechyd yn hytrach na materion ehangach a holodd beth arall y gellid ei wneud i adeiladu ar bartneriaethau sy'n bodoli eisoes, newidiadau i fannau gwaith partneriaethau a sut y gallai hynny effeithio ar y SRG. Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad at feysydd sy'n cael eu cynorthwyo gan gyllid trawsnewid ar hyn o bryd, a oedd yn cynnwys Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill, a'r angen i'w symud tuag at sefyllfa fwy cynaliadwy. Soniodd am y posibilrwydd o ddatblygu cyllidebau cronus ac ystyried comisiynu ar y cyd, fel mewn rhannau eraill o'r DU, er mwyn darparu gwasanaethau gwell ar gyfer y gymuned. Mewn perthynas â'r persbectif ehangach, soniodd hefyd fod angen i wasanaethau iechyd gael eu lleoli i raddau llai mewn ysbytai.

S20/41.5 Gwirfoddolodd y cynrychiolydd NWREN i gyfeirio at lenyddiaeth sydd ar gael o ran anghydraddoldeb iechyd a Covid-19 ar gais. Tynnodd sylw hefyd at faterion yn ymwneud â mynediad i Ofal Cychwynnol, gan gyfeirio at enghreifftiau yr oedd grwpiau dan anfantais wedi'u profi. Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad sicrwydd fod Gofal Cychwynnol yn gweithredu yn ystod y pandemig a'i fod yn cynnig y rhan fwyaf o'r cymorth mewn perthynas â Covid-19. Cydnabu fod y gwasanaeth hwn yn hollbwysig o ran darparu 90% o ofal ar gyfer 10% o gyllideb PBC a phwysleisiodd bwysigrwydd sicrhau bod modd ei ddarparu'n ddiogel. Derbyniodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad sylw'r cynrychiolydd NWREN o ran yr effaith anghymesur yr oedd Covid-19 yn ei chael ar y gymuned BAME ac roedd PBC yn mynd i'r afael â hyn.

Yn fyr, gwnaeth y SRG

- gydnabod yr heriau yr oedd y Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu yn yr hinsawdd bresennol, yn ogystal â'r cyllid a oedd ar gael i fynd i'r afael â'r diffyg a chyflawni o ran cynlluniau nad ydynt yn ymwneud â diffyg wrth fynd ymlaen
- roedd yn pryderu ynghylch materion yn ymwneud ag anghydraddoldeb iechyd yr oedd y pandemig wedi'i amlygu i grwpiau dan anfantais
- tynnu sylw at bryder bod amgyffrediad bod mynediad at ofal cychwynnol yn anodd ar gyfer apwyntiadau wyneb yn wyneb, yn enwedig i rai grwpiau
- nodi bod PBC yn mynd i'r afael â dyletswydd economaidd-gymdeithasol a'r rheiny â nodweddion BAME yr effeithiwyd arnynt yn anghymesur

<p>S20/42 Datblygu model Canolfan Triniaeth Ddiagnostig (DTC)</p> <p>S20/42.1 Gwnaeth cyflwyniad Pennaeth Dros Dro Gwella Gofal wedi'i Gynllunio amlinellu'r heriau, gweithredoedd, cynnydd hyd yma a'r risgiau sy'n bodoli ar hyn o bryd o fewn Gofal wedi'i Gynllunio. Dywedodd fod Gofal wedi'i Gynllunio yn un o'r heriau mwyaf oherwydd Covid-19. Byddai angen symud nifer o alluogwyr yn eu blaen o ran adfer gofal wedi'i gynllunio rhwng 2020-23 er mwyn trawsnewid gwasanaethau ac i fod o fudd i boblogaeth Gogledd Cymru. Cyfeiriodd at gynllun chwe phwynt PBC i symud model gofal triniaethau dydd trawsnewidiol yn ei flaen gyda chyfleuster gwell ar gyfer cleifion mewnol gan ddefnyddio system gofal iechyd ar sail gwerthoedd. Cyfeiriodd Pennaeth Dros Dro Gwella Gofal wedi'i Gynllunio at gynnal dwy Ganolfan Triniaeth Ddiagnostig yn ddelfrydol a phwysleisiodd yr angen i sicrhau bod rhyngwyneb critigol effeithiol cynnar â gofal cychwynol er mwyn rhyddhau capasiti o fewn gofal eilaidd. Cafodd manyleb y gwasanaeth o Fedi 2020 ei amlinellu yn y cyflwyniad ond ni chytunwyd arno eto. Cafodd yr uchelgais i 'wneud gwaith yr wythnos hon yn ystod yr wythnos hon' ei rhannu gydag aelodau wrth iddo amlinellu'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a oedd yn ddisgwyliedig i ddarparu cyfleuster o'r radd flaenaf a allai ddarparu buddion sylweddol ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru.</p> <p>S20/42.2 Holodd cynrychiolydd AVOW ynghylch lefel yr ymgysylltu ar lefel sylfaenol a gwblhawyd hyd yma a sut byddai PBC yn mynd i'r afael â lefelau staffio, gan gynnwys yr adnoddau sydd eu hangen i ddelio ag ôl-groniadau mawr. Dywedodd Pennaeth Dros Dro Gwella Gofal wedi'i Gynllunio fod y gwaith datblygu ar gam cysyniadol ar hyn o bryd ac y byddai angen ymagwedd fesul cam yn y cyfamser. Roedd modelau gweithlu'n cael eu datblygu ac amlygodd y posibilrwydd cadarnhaol o gynnwys partneriaid yn y daith drawsnewidiol a fyddai'n gofyn am rolau a sgiliau gwahanol. Gallai'r ffyrdd newydd o weithio ddenu ymgeiswyr newydd hefyd. Dywedodd y byddai'r meysydd hyn yn cael eu hystyried yn fanylach pe bai'r Ganolfan Triniaeth Ddiagnostig yn mynd yn ei blaen fel achos busnes amlinellol.</p> <p>S20/42.3 Cydnabu cynrychiolydd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy y cyfleoedd posibl i hyfforddi ac uwchraddio sgiliau staff. Mewn ymateb i'w chwestiwn yn ymwneud â pha un a fyddai angen cyfeiriad meddyg teulu ar gleifion i fanteisio ar wasanaethau'r Ganolfan Triniaeth Ddiagnostig, cadarnhawyd y byddai angen hyn yn unol â'r hyn a ystyrir i fod yn arfer gorau.</p> <p>S20/42.4 Holodd cynrychiolydd Cyngor Sir y Fflint hefyd pryd fyddai uwchraddio sgiliau staff yn digwydd. Dywedwyd y byddai'r manylion hyn yn cael eu cynnwys ar adeg paratoi'r Achos Amlinellol Strategol. Cadarnhawyd hefyd y byddai meddygon teulu'n cael cymorth, yn ôl pob tebyg, i ddatblygu sgiliau ychwanegol o fewn arbenigeddau.</p>	
--	--

<p>Yn fyr, gwnaeth y SRG</p> <ul style="list-style-type: none"> • gefnogi'r prosiect cyffrous hwn sydd wedi cyrraedd cam datblygu'r Achos Amlinellol Strategol • gydnabod y cyfleoedd i uwchraddio sgiliau staff ac ailgynllunio'r ymagwedd Cyfeirio at Driniaeth a'r ymagwedd llwybr un-stop, ar sail gwerthoedd • gefnogi Pennaeth Dros Dro Gwella Gofal wedi'i Gynllunio yn ei asesiad o'r angen am ddwy ganolfan o ystyried daearyddiaeth PBC, gan gydnabod nad oedd hyn wedi'i ddiffinio ymhellach na lleoliad canolog yn y dwyrain a lleoliad canolog yn y gorllewin ar hyn o bryd 	
<p>S20/43 Diweddariad ar wasanaethau lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu</p> <p>S20/43.1 Ymunodd Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Gweithredol lechyd Cyhoeddus, Cyfarwyddwr Dros Dro MHLD, Cyfarwyddwr Meddygol MHLD a Chyfarwyddwr Rhaglen Ailddatblygu Ablett â'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.</p> <p>Diweddariad lechyd Meddwl</p> <p>S20/43.2 Arweiniodd Cyfarwyddwr Meddygol MHLD aelodau trwy'r cyflwyniad a oedd yn cwmpasu fframwaith strategol lechyd Meddwl, y system bresennol, dyrannu adnoddau, cyfyngiadau a phroblemau, darpariaeth ar gyfer y dyfodol, egwyddorion sy'n sail i roi strategaeth ar waith, newidiadau diwylliannol, diweddaru ar Gynllun y Gaeaf a datblygiadau ar gyfer y dyfodol, blaenoriaethau a materion cenedlaethol o ran cyflwyno gwasanaethau hanfodol.</p> <p>S20/43.3 Pwysleisiodd cynrychiolydd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir y Fflint bwysigrwydd gweithio amlasiantaethol a myfyriodd nad oedd y fforymau presennol gyda LITs, er ei bod yn hollbwysig i gyflwyno strategaeth, yn cyfarfod yn effeithiol ar hyn o bryd. Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Meddygol MHLD at gyfraddau salwch uchel ar hyn o bryd a oedd hefyd yn effeithio ar bresenoldeb, ond roedd yn awyddus i ailsefydlu hyn a symud ymlaen yn hyn o beth.</p> <p>S20/43.4 Soniodd cynrychiolydd WAST am waith WAST ar y cyd ar lefel genedlaethol a gwaith pilot yn ardal y canol.</p> <p>S20/43.5 Myfyriodd cynrychiolydd AVOW y byddai gan ddisgwyliaidau o ran darparu Gofal yn Nes at y Cartref effeithiau cysylltiedig ar ofal cymunedol a chymunedol. Holodd faint o gyfathrebu ac ymrwymiad a oedd yn bodoli ar gyfer lechyd Meddwl yn y maes hwn a sut y gallai effeithio ar deuluoedd. Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Meddygol lechyd Meddwl at wella arbenigedd lechyd Meddwl mewn clystyrau meddygon teulu a rhannodd brofiad cenedlaethol yn ymwneud â baich meddygon teulu. Amlygodd hefyd y bwriad i fynd ar drywydd mwy o gymorth i ofalwyr.</p> <p>Ailddatblygu Ablett</p>	

S20/43.6 Amlinellodd Cyfarwyddwr Rhaglen Ailddatblygu Ablett gynnydd allweddol hyd yma. Nodwyd bod achos amlinellol strategol wedi'i gymeradwyo ym mis Mai 2019 ond rhoddwyd terfyn ar yr opsiwn ffafriedig i ddymchwel ac ailadeiladu oherwydd nifer o ystyriaethau ychwanegol. Byddai'r opsiwn ffafriedig newydd ar ôl-troed mwy ac felly, byddai'n cael ei adeiladu ar leoliad gwahanol ar safle YGC. Rhannodd fanylion am gapasiti ac adnoddau ychwanegol yr oedd angen mynd i'r afael â nhw. Deallwyd hefyd y gallai problemau cynllunio effeithio ar yr amserlen newydd i ddarparu Achos Busnes Amlinellol erbyn Mawrth 2021.

S20/43.7 Holodd cynrychiolydd ALI Sir Ddinbych am niferoedd y manau meysydd parcio a fyddai'n cael eu colli i ôl-troed adeiledig mwy. Nodwyd y byddai lleoedd parcio digonol newydd ar gael ynghyd â strategaeth well ar gyfer cludiant. Roedd penderfyniadau'n cael eu gwneud gyda thîm rheoli'r ysbyty mewn perthynas â defnyddio'r adeilad presennol gan gynnwys storio cofnodion meddygol.

S20/43.8 Holodd y cynrychiolydd AVOW p'un a ragwelid unrhyw darfu yn yr Adran Achosion Brys pe bai Uned Gofal Dwys Seiciatrig (PICU) yn cael ei chyflwyno. Nodwyd bod gwaith yn parhau i ystyried hyn.

Yn fyr,

- roedd y SRG yn gefnogol o'r datblygiadau Strategaeth Iechyd Meddwl a amlinellwyd, gan gynnwys cynnydd ar achos busnes strategol ac amlinellol ailddatblygu Ablett
- roedd y SRG yn cydnabod bod PBC wedi dod allan o fesurau arbennig, ond roedd dal waith i'w wneud.
- roedd y SRG yn cydnabod heriau o ran lefelau staffio, gan gynnwys mwy o salwch trwy'r pandemig, ac roedd yn croesawu cyfleoedd am fwy o waith mewn partneriaeth a oedd hefyd yn cofleidio'r sector gwirfoddol.
- gwnaeth y SRG fyfyrion ynghylch yr angen i ystyried cynllun cyfathrebu a oedd hefyd yn esbonio sut y gellid manteisio ar yr ystod eang o wasanaethau iechyd meddwl sydd ar gael gan ei bod yn anodd i aelodau'r cyhoedd ddefnyddio'r cyfoeth presennol o adnoddau'n effeithiol

S20/44 Diweddariad ar Ofal Cychwynnol

S20/44.1 Rhoddodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol gyflwyniad a oedd yn amlinellu rhaglen strategol Gofal Cychwynnol a'r broses o'i rhoi ar waith, blaenoriaethau fframwaith gweithredu cenedlaethol Gofal Cychwynnol, ymateb i Covid-19, cynllunio ar gyfer y Gaeaf, yr Academi Gofal Cychwynnol a Chymunedol a ffocws ar gyfer y dyfodol.

S20/44.2 Gofynnodd y cynrychiolydd NWREN am sicrwydd ar fynediad yn ystod pandemig Covid-19 gan fod cleifion, yn enwedig y rhai dros 55 oed, yn mynegi pryder ynghylch y ffaith nad oeddent yn gallu

<p>defnyddio'r un meddyg a diffyg dilyniant gofal a oedd yn arwain at broblemau eraill, o bosibl. Cydnabu Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol fod y gweithlu meddygon teulu presennol yn ansefydlog mewn rhai ardaloedd o'r Bwrdd Iechyd, ond nid felly oedd hi ar draws Gogledd Cymru. Disgrifiodd y manteision sy'n gysylltiedig â gweld yr ymarferydd gofal iechyd mwyaf priodol a oedd wedi'i gyflwyno mewn llawer o bractisau a reolir a chydabu y gallai cyfathrebu gwell o ran y ffordd hon o weithio fod yn fuddiol.</p> <p>S20/44.3 Holodd cynrychiolydd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy ynghylch cynnydd gyda'r Academi newydd a pha un a fyddai modd o'i gysylltu â hyfforddiant y Ganolfan Triniaeth Ddiagnostig. Dywedodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol fod yr Academi'n cefnogi ymarferwyr newydd fel blaenoriaeth a bod gwaith yn dod yn ei flaen i gynorthwyo'r rhyngwyneb cychwynnol ac eilaidd. Croesawodd cynrychiolydd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy ddatblygu'r Academi a'i pharhad yn ystod y pandemig.</p> <p>S20/44.4 Mynegodd cynrychiolydd Un Llais Cymru bryder ynghylch mynediad cyffredinol at bractisau meddygon teulu, gan roi enghreifftiau unigol o brofiadau negyddol h.y. claf strôc a hefyd brofion gwaed mewn maes parcio. Croesawodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol y sylwadau a gofynnod hefyd am ragor o fanylion am faterion archebu presgripsiynau a oedd wedi'u codi fel bo modd mynd ar drywydd y rhain. Dywedodd fod meddygon teulu'n derbyn cymorth i ddilyn arweiniad cenedlaethol a oedd yn newid mewn perthynas â brysbenneu clinigol yn ystod y pandemig.</p> <p>Yn fyr,</p> <ul style="list-style-type: none"> • roedd y SRG yn gefnogol ar y cyfan o ran newidiadau ac addasiadau a gyflwynwyd yn ystod pandemig Covid-19 • roedd y SRG wedi myfyrio ynghylch pryder sylweddol ymysg rhannau amrywiol o'r gymuned eu bod yn amgyffred anallu i fanteisio ar wasanaethau gofal cychwynnol amrywiol • roedd y SRG wedi gofyn am sicrwydd ynghylch pa wasanaethau a oedd ar gael i fanteisio arnynt; yn bwysig rhoi sicrwydd i'r cyhoedd o ran darpariaeth "yn y fan a'r lle" 	
<p>S20/45 Nodiadau drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28.9.20, materion sy'n codi a'r cynllun gweithredu cryno</p> <p>Cytunwyd ar y nodiadau'n amodol ar ddiwygiad i gael ei ddarparu gan gynrychiolydd Un Llais Cymru ynghylch 'amgyffrediad' y cyhoedd o hygyrchedd S20/28.8</p>	<p>MP</p>
<p>S20/46 Nodyn cynghorol i gyfarfod y Bwrdd 28.9.20</p> <p>S20/46.1 Cafodd yr adroddiad ei dderbyn yn gadarnhaol gan y Bwrdd.</p>	

<p>S20/46.2 Cytunodd y Bwrdd i gyfethol cynrychiolydd cysgodîr Gymdeithas Dai.</p> <p>S20/46.3 Mewn perthynas ag Ysbyty Cymuned Gogledd Sir Ddinbych, derbyniodd y Bwrdd bryder y SRG ynghylch yr amserlen gynllunio. Nodwyd bod achos busnes y rhaglen wedi'i gyflwyno gerbron Llywodraeth Cymru, ac roedd yr enw wedi mynd yn ôl at Ysbyty Brenhinol Alexandra.</p> <p>S20/46.4 Nododd y Bwrdd sylwadau'r SRG mewn perthynas ag ymgysylltu ynghylch datblygu Strategaeth Glinigol PBC.</p>	
<p>S20/47 Eitemau i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf a'r blaengynllun</p> <p>Yn dilyn trafodaeth, awgrymodd y SRG y meysydd canlynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diweddariad ar Gynllun Tair Blynedd PBC / Cynllunio Corfforaethol • Diweddariad aYmgysylltu o ran Strategaeth wedi'i Galluogi'n Ddigidol • Cynnydd ar ddatblygu Strategaeth Gwasanaethau Clinigol • Cyflwyno brechiadau • Achosion busnes sy'n cael eu datblygu 	
<p>S20/48 Dyddiad y cyfarfod nesaf</p> <p>22.3.20 lleoliad/llwyfan rhithiol i'w gadarnhau</p>	

Cofrestr Bresenoldeb

Enw	Teitl / Sefydliad	3.3.20	22.6.20	28.9.20	14.12.20
Mr Ffrancon Williams	Cymdeithasau Tai (Cadeirydd)	✓	✓	✓	✓
Mr Gwilym Ellis Evans	Mantell Gwynedd (Is-gadeirydd)	✓	✓	x	✓
Y Cyng. Llinos Medi Huws	Cyngor Ynys Môn	x	x	x	x
Y Cyng. Louise Emery	Cyngor Sir Conwy	x	x	x	✓
Y Cyng. Christine Marston	Cyngor Sir Ddinbych	✓	✓	✓	✓
Y Cyng. Hilary McGuill	Cyngor Sir y Fflint	x	✓	✓	✓
Y Cyng. Dafydd Meurig	Cyngor Gwynedd	x	x	x	x
Y Cyng. Joan Lowe	Cyngor Sir Wrecsam	✓	✓	✓	x
Y Cyng. Mike Parry	Un Llais Cymru	✓	✓	✓	✓
Mrs Sian Purcell	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Medrwn Môn	x	✓	✓	✓
Mrs Fiona Evans	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy	✓	✓	✓	✓
Mrs Debbie Thompson	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych	✓	✓ SH	x	x
Mrs Ann Woods / Mrs Millie Boswell	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir y Fflint	✓	✓	✓ MB	✓
Mrs Jackie Allen	Trydydd Sector AVOW Wrecsam	x	✓	✓	✓
Ms Claire Sullivan	NEWCIS	x	x	x	x
Mrs G Winter	Ymddiriedolaeth y Gofalwyr	x	x	x	x
Ms Llinos M Roberts	Gwasanaeth Allgymorth Gofalwyr, Ardal Gorllewin BIPBC	x	✓	✓	x
Mrs Mary Wimbury	Fforwm Gofal Cymru	✓	✓	✓	x
Yr Athro Robert Moore	Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru	x	✓	✓	✓
Mr Trystan Pritchard	Hosbisau Gogledd Cymru	✓	✓	x	✓
Ms Clare Budden	Cymdeithasau Tai Cysgodi				✓
Mr Wayne Davies	Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru	x	x	✓	✓ SW
Mrs Jackie Allen /Mr Andy Burgen	Cadeirydd NWCHC / Is-gadeirydd NWCHC	✓GH	✓PR	✓ AB	✓AB
Mr Mark Wilkinson	Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad, BIPBC – Gweithredwr Arweiniol PBC	✓	✓	✓	✓
Mrs Sally Baxter	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth Iechyd, BIPBC	x	✓	x	x
Mrs Katie Sargent	Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Cyfathrebu BIPBC	x	✓	✓	✓